

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent

Hysbysiad Preifatrwydd Staff

Pwy ydym ni

Mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent (Swyddfa'r Comisiynydd) yn rhoi cymorth i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (y Comisiynydd) gyflawni ei ddyletswyddau a chyfrifoldebau sy'n cynnwys dwyn Prif Gwnstabl Gwent i gyfrif am gyflawni plismona lleol, pennu a diweddarau cynllun heddlu a throseddu, pennu'r gyllideb a'r praesept ac ymgysylltu â'r cyhoedd a chymunedau yng Ngwent.

Prif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd yw'r rheolwr data ar gyfer y wybodaeth bersonol rydym yn ei phrosesu, oni bai y nodir yn wahanol.

Gallwch gysylltu â ni mewn sawl ffordd

Trwy e-bost: Commissioner@gwent.pnn.police.uk

Ar y ffôn: 01633 642200

Trwy'r post: Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent
Pencadlys yr Heddlu
Heol Tyrpeg
Croesyceiliog
Cwmbrân
NP44 2XJ

Y Swyddog Diogelu Data yw Joanne Regan. Gellir defnyddio'r manylion uchod i gysylltu â hi. Cyfeiriwch bob gohebiaeth at sylw'r Swyddog Diogelu Data

Pwrpas yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn

Pwrpas yr hysbysiad preifatrwydd hwn yw eich hysbysu sut bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn prosesu eich gwybodaeth bersonol a'ch hawliau mewn perthynas â hynny.

Mae'n bwysig nodi bod Heddlu Gwent yn ymgymryd â'r holl swyddogaethau Adnoddau Dynol a chyflogres ar ran Swyddfa'r Comisiynydd ac fel y cyfryw bydd eich data personol yn cael eu rhannu rhwng y ddau sefydliad. Bydd eich data personol yn cael eu prosesu ar ran Swyddfa'r Comisiynydd yn yr un modd â data cyflogai Heddlu Gwent. Defnyddir 'rydym', 'ni' ac 'ein' trwy'r hysbysiad preifatrwydd hwn, a dylid cymryd bod y rhain yn golygu Swyddfa'r Comisiynydd a/neu Heddlu Gwent. Am wybodaeth bellach am Heddlu Gwent a'u Swyddog Diogelu Data, ewch i'w [gwefan](#).

Pa wybodaeth ydym ni'n ei chasglu?

Rydym yn casglu amrywiaeth o wybodaeth amdanoch chi. Gall gynnwys:

- eich enw, cyfeiriad a manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, dyddiad geni a rhywedd;
- manylion eich cymwysterau, sgiliau, profiad a hanes cyflogaeth, gan gynnwys dyddiadau dechrau a gorffen, gyda chyflogwyr blaenorol a gyda ni;
- gwybodaeth am eich statws priodasol, perthynas agosaf, dibynnyddion a phobl i gysylltu â nhw mewn argyfwng;
- gwybodaeth am eich cenedligrwydd a'ch hawl i weithio yn y DU;
- gwybodaeth monitro cyfle cyfartal, gan gynnwys gwybodaeth am eich tarddiad ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, rhywedd, anabledd a chrefydd neu gred;
- telerau ac amodau eich cyflogaeth;
- gwybodaeth am eich tâl, gan gynnwys hawl i fuddiannau megis pensiynau neu sicrwydd yswiriant;
- manylion eich cyfrif banc a rhif yswiriant gwladol;
- gwybodaeth am eich proses fetio a chofnod troseddol;
- manylion eich amserlen (diwrnodau gwaith ac oriau gwaith) a phresenoldeb yn y gwaith;
- lluniau ar gyfer eich bathodyn adnabod staff
- manylion cyfnodau o absenoldeb a gymerwyd gennych, gan gynnwys gwyliau, absenoldeb salwch, absenoldeb tosturiol, absenoldeb argyfwng, absenoldeb dibynnydd a thoriadau yn eich cyflogaeth, a'r rhesymau dros yr absenoldeb;
- manylion unrhyw weithdrefnau disgyblu neu gŵynion rydych wedi bod yn rhan ohonynt, gan gynnwys unrhyw rybuddion a gyflwynwyd i chi a gohebiaeth gysylltiedig;
- asesiadau o'ch perfformiad, gan gynnwys arfarniadau, adolygiadau a graddau perfformiad, hyfforddiant rydych wedi cymryd rhan ynddo, cynlluniau gwella perfformiad a gohebiaeth gysylltiedig;
- gwybodaeth am gyflyrau meddygol neu iechyd, gan gynnwys a oes gennych chi anabledd y mae angen i ni wneud addasiadau rhesymol ar ei gyfer;
- manylion aelodaeth o undeb llafur;
- y Gymraeg (yn unol â Safonau'r Gymraeg) a gallu mewn ieithoedd eraill; a
- buddiannau busnes allanol yn unol â'n *Polisi Buddiannau Busnes*.

Rydym yn casglu'r wybodaeth hon mewn amryw o ffyrdd. Er enghraifft, mae data'n cael eu casglu trwy ffurflenni cais, yn cael eu cymryd o'ch pasbort neu ddogfennau hunaniaeth eraill megis eich trwydded yrru; o ffurflenni a gwblhawyd gennych ar ddechrau neu yn ystod cyflogaeth (megis ffurflenni enwebiad budd-dal marwolaeth); o ohebiaeth â chi; neu drwy gyfweiliadau, cyfarfodydd neu asesiadau eraill. Mewn rhai achosion, rydym yn casglu data personol amdanoch chi trwy drydydd parti, megis geirdaon a ddarperir gan gyn-gyflogwyr.

Ar ddechrau eich cyflogaeth bydd gofyn i chi fynd trwy broses fetio. Efallai y caiff y gofyniad hwn ei ailadrodd yn gyfnodol yn ystod eich cyflogaeth, gan ddibynnu ar eich swydd. Byddwn yn eich fetio yn unol ag Arfer Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer Fetio'r Coleg Plismona ac, yn dibynnu ar lefel y fetio gofynnol ar gyfer eich swydd, gallwn ofyn i chi ddarparu; eich manylion personol yn ogystal â manylion eich partner, unrhyw blant dros 10 oed, eich rhieni, brodyr a chwiorydd a chyd-breswylwyr

Yn dibynnu ar eich swydd, gallwn gynnal gwiriadau am unrhyw euogfarnau troseddol, cudd-wybodaeth leol, chwiliad o Gronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu, gwiriadau ffynhonnell agored a gwiriadau gan asiantaethau gwirio credyd hefyd. Bydd lefel y fetio gofynnol ar gyfer pob swydd yn cael ei benderfynu yn unol ag Arfer Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer Fetio'r Coleg Plismona a'r Cod Ymarfer ar gyfer Fetio.

Beth yw'r sail gyfreithiol dros brosesu eich data personol?

Mae angen i ni brosesu eich data personol cyn ymrwymo i gontract gyda chi ac i fodloni ein dyletswyddau dan y contract hwn. Er enghraifft, mae angen i ni brosesu eich data i ddarparu contract cyflogaeth ar eich cyfer, i'ch talu yn unol â'ch contract cyflogaeth neu fanylion eich penodiad ac i weinyddu hawliadau pensiwn, cynlluniau aberth cyflog a didyniadau rydych yn dewis cael eu tynnu o'ch cyflog.

Mewn rhai achosion, mae angen i ni brosesu data er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â dyletswyddau cyfreithiol. Er enghraifft, mae'n ofynnol ein bod yn gwirio hawl gweithiwr i weithio yn y DU, didynnu treth, cydymffurfio â chyfreithiau iechyd a diogelwch a galluogi gweithwyr i gymryd absenoldeb y mae ganddynt hawl iddo.

Mewn achosion eraill, mae gennym fudd cyfreithiol wrth brosesu data personol cyn, yn ystod ac ar ddiwedd y gydberthynas cyflogaeth. Mae prosesu data gweithwyr yn golygu bod y sefydliad yn gallu:

- cynnal prosesau recriwtio a dyrchafu;
- cynnal cofnodion cyflogaeth a manylion cyswllt cywir a chyfredol (gan gynnwys manylion pwyl i gysylltu â nhw mewn argyfwng), a chofnodion o hawliau cytundebol a statudol gweithwyr;
- gweithredu a chynnal cofnod o brosesau disgyblu a chwyno, i sicrhau ymddygiad derbyniol yn y gweithle;
- gweithredu a chadw cofnod o berfformiad gweithwyr a phrosesau cysylltiedig, i gynllunio ar gyfer datblygiad gyrfa, at ddibenion cynllunio olyniaeth a phrosesau rheoli gweithlu;
- gweithredu a chynnal cofnod o absenoldebau a gweithdrefnau rheoli absenoldebau, er mwyn rheoli'r gweithlu'n effeithiol a sicrhau bod gweithwyr yn derbyn y cyflog neu fuddiannau eraill y mae ganddynt hawl iddynt;
- cael cyngor iechyd galwedigaethol, i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â dyletswyddau mewn perthynas ag unigolion ag anableddau, bodloni ein rhwymedigaethau dan gyfraith iechyd a diogelwch, a sicrhau bod gweithwyr yn derbyn y cyflog neu fuddiannau eraill y mae ganddynt hawl iddynt;
- gweithredu a chynnal cofnod o fathau eraill o absenoldeb (gan gynnwys mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu, rhiant a rhiant a rennir), er mwyn rheoli'r gweithlu'n effeithiol, i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â dyletswyddau mewn

perthynas â hawl i absenoldeb ac i sicrhau bod gweithwyr yn derbyn y cyflog neu fuddiannau eraill y mae ganddynt hawl iddynt;

- sicrhau bod gweinyddiaeth gyffredinol yr adran Adnoddau Dynol a Gweinyddiaeth Busnes yn effeithiol;
- darparu geirdaon ar gais ar gyfer gweithwyr cyfredol neu flaenorol;
- ymateb i hawliadau cyfreithiol ac amddiffyn yn eu herbyn; a
- chynnal a hybu cydraddoldeb yn y gweithle.

Lle rydym yn dibynnu ar fuddiannau cyfreithlon fel rheswm dros brosesu data, rydym wedi ystyried a yw hawliau a rhyddid cyflogeion neu weithwyr yn bwysicach na'r buddiannau hynny ac rydym wedi casglu nad ydynt.

Mae rhai categorïau penodol o ddata personol, megis gwybodaeth am iechyd neu gyflyrau meddygol, yn cael eu prosesu i gyflawni rhwymedigaethau cyfraith cyflogaeth (megis rhai mewn perthynas â gweithwyr ag anabledau ac at ddibenion iechyd a diogelwch). Mae gwybodaeth am aelodaeth o undeb llafur yn cael ei phrosesu er mwyn i ni allu talu tanysgriadau undeb.

Lle rydym yn prosesu categorïau penodol eraill o ddata, megis gwybodaeth am darddiad ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, rhywedd, iechyd neu grefydd neu gred, mae hyn at ddibenion monitro cyfle cyfartal.

Rhannu eich data personol

Bydd gwybodaeth amdanoch yn cael ei rhannu'n fewnol, gan gynnwys gydag aelodau o'r tîm Adnoddau Dynol a'r tîm Recriwtio, y gyflogres, eich rheolwr llinell, rheolwyr yn y maes busnes rydych yn gweithio ynddo a staff SRS os yw mynediad at y data'n angenrheidiol er mwyn iddynt berfformio'u swyddogaethau.

Rydym yn rhannu eich data gyda thrydydd partiön er mwyn cael geirdaon cyn cyflogaeth gan gyflogwyr eraill, cael gwiriadau cefndir gan ddarparwyr trydydd parti a chael gwiriadau cofnodion troseddol angenrheidiol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gallwn rannu eich data gyda thrydydd parti yng nghyd-destun Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth). Yn yr amgylchiadau hynny bydd y data'n ddarostyngedig i drefniadau cyfrinachedd.

Rydym hefyd yn rhannu eich data gyda thrydydd partiön sy'n prosesu data ar ein rhan mewn perthynas â phensiynau a darpariaeth buddiannau a darpariaeth gwasanaethau iechyd galwedigaethol. Bydd gan y staff yn Heddlu De Cymru sy'n gweithredu'r system Adnoddau Dynol a Chyflogres Business World gyda Heddlu Gwent fynediad at eich data hefyd.

Os yw eich swydd yn gofyn am fetio ehangach gan y llywodraeth gallwn roi eich cyfeiriad e-bost a gwybodaeth bersonol arall megis eich enw, dyddiad geni a rhif pasbort i United Kingdom Security Vetting a fydd yn cysylltu â chi i gwblhau'r cais fetio priodol. UKSV fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw wybodaeth ychwanegol rydych yn ei darparu ar ei gyfer.

Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth ag unrhyw drydydd parti at ddibenion marchnata uniongyrchol.

Am ba hyd ydym ni'n cadw eich data personol?

Mae data personol yn cael eu cadw yn unol â'n *polisi cadw*.

Bydd y sefydliad yn cadw eich data personol hyd ddiwedd eich cyflogaeth. Mae cyfnodau cadw eich data ar ôl diwedd cyflogaeth wedi eu hamlinellu yng Nghannllawiau Cyngor Cenedlaethol Penaeithaid yr Heddlu ar y safonau gofynnol ar gyfer cadw a gwaredu cofnodion heddlu.

Sut ydym ni'n cadw eich gwybodaeth yn ddiogel?

Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn cymryd diogelwch eich data o ddifrif. Mae gennym bolisiâu a rheolaethau mewnol ar waith i sicrhau nad yw eich data'n cael eu colli, eu dinistrio'n ddamweiniol, eu camddefnyddio na'u datgelu, ac nad oes gan unrhyw un fynediad atynt ac eithrio ein gweithwyr er mwyn cyflawni eu dyletswyddau'n iawn. Mae mynediad at y data personol amdanoch a gedwir ar y system Adnoddau Dynol a Chyflogres yn gyfyngedig i dimau neu unigolion penodol.

Lle rydym yn defnyddio trydydd parti i brosesu data personol ar ein rhan, rydym yn gwneud hynny ar sail cyfarwyddiadau ysgrifenedig, dan ddyletswydd cyfrinachedd ac mae rhwymedigaeth arnom i roi mesurau technegol a sefydliadol priodol ar waith i sicrhau diogelwch data.

Eich hawliau mewn perthynas â'ch data personol

O dan gyfraith diogelu data, mae gennych chi hawliau y mae angen i ni eich gwneud yn ymwybodol ohonynt. Mae'r hawliau sydd ar gael i chi'n dibynnu ar ein rheswm dros brosesu eich gwybodaeth.

- Eich hawl i fynediad
- Eich hawl i gywiriad
- Eich hawl i ddileu
- Eich hawl i rwystro prosesu.
- Eich hawl i wrthwynebu prosesu
- Eich hawl i gludadwyedd data

Ceir gwybodaeth bellach am yr hawliau hyn yn ein *hysbysiad preifatrwydd cyffredinol*.

Beth os nad ydych yn darparu data personol?

Mae rhywfaint o rwymedigaethau arnoch dan eich contract cyflogaeth i ddarparu data i ni. Yn benodol, mae gofyn i chi hysbysu am absenoldebau o'r gwaith a gellir gofyn i chi ddarparu gwybodaeth am faterion disgyblu neu faterion eraill dan y ddyletswydd ymhlyg o ddiwylledd. Mae'n bosibl y bydd rhaid i chi ddarparu data i ni er mwyn arfer eich hawliau statudol hefyd, megis hawliadau absenoldeb statudol. Gall methu â darparu'r data olygu na allwch arfer eich hawliau statudol.

Rhaid darparu gwybodaeth benodol, fel manylion cyswllt, eich hawl i weithio yn y DU a manylion cyflog i'n galluogi ni i ymrwmo i gontract cyflogaeth gyda chi. Os nad

ydych yn darparu gwybodaeth arall, bydd yn amharu ar ein gallu i weinyddu'r hawliau a rhwymedigaethau sy'n codi o ganlyniad i'r gydberthynas cyflogaeth yn effeithlon.

Newidiadau i'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn

Rydym yn adolygu ein hysbysiad preifatrwydd yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn gyfredol a chywir.

Os ydych yn anfodlon

Rydym yn pennu safonau uchel iawn ar gyfer casglu a defnyddio data personol yn briodol ac rydym yn ystyried unrhyw gŵynion yn ddifrifol iawn. Hoffem i chi dynnu ein sylw at unrhyw ddirifol lle rydych yn credu bod y defnydd o ddata'n annheg, yn gamarweiniol neu'n amhriodol. Rydym yn croesawu unrhyw awgrymiadau ar gyfer gweithredu'n well hefyd. Cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data yn Swyddfa'r Comisiynydd i ddechrau.

Os ydych yn dal yn anfodlon ar ôl cysylltu â'n Swyddog Diogelu Data, gallwch wneud cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
2il Lawr, Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Ffôn: 01625 545297

Ffacs: 029 2067 8399
E-bost: wales@ico.org.uk

Diweddarwyd 10 Ionawr 2019